| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **27 MEHEFIN 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **PENODI AELODAU LLEYG I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **ADRODDIAD GAN** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWRAIG (DROS DRO)** |
| **GWEITHREDU** | **CADARNHAU COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR 24 MAI 2012** |

## 1. CEFNDIR

1.1. Yn unol ag Adran 82(2)(b) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor Archwilio, yn unol â gofynion cyfreithiol, fod yn Aelod Lleyg. Os nad oes aelod o'r fath ar y Pwyllgor mae gweithredoedd y Pwyllgor ei hun yn ultra vires. Yn unol â'r Mesur, 'roedd rhaid penodi aelodau lleyg erbyn 30 Ebrill 2012.

1.2. Cytunwyd ar adroddiad gan y Gweithgor Cyfansoddiad yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir ar 10 Mai 2012 ac fe gafwyd cytundeb y Comisiynwyr iddo ar 24 Mai 2012. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y paragraffau isod i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio.

*3.4.8.3.1 - Chwarter o aelodaeth y Cyngor gyda chydbwysedd gwleidyddol ynghyd ag o leiaf un aelod lleyg cyfetholedig i'w benodi gan y Pwyllgor;*

*a*

*3.4.8.3.3 – Bydd yr aelod(au) cyfetholedig, na fyddant yn aelodau o'r Cyngor, yn cael eu recriwtio ar gyfer sgiliau sy'n briodol i waith y Pwyllgor Archwilio, ac fe gânt eu penodi gan y Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio am gyfnod penodol i'w benderfynu ganddynt pan wneir y penodiad.*

**1.3.** Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymryd camau i benodi aelod lleyg i'r Pwyllgor ac, yn y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2011, cymeradwywyd penodi aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor. Rhoddwyd hysbyseb yn y wasg ond dim ond un ymateb a gafwyd. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2011 lle **penderfynwyd cymeradwyo ailhysbysebu yn y flwyddyn newydd am aelodau lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.**

1.4. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2012 rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr ymatebion i'r ail hysbyseb a bod saith o geisiadau wedi eu cyflwyno. **Penderfynodd y Pwyllgor ofyn i'r Rheolydd Archwilio Mewnol asesu'r ceisiadau i fod yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio yn erbyn y meini prawf a benodwyd gyda golwg ar dynnu rhestr fer o ymgeiswyr addas i'w cyfweld.**

1.5. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Mawrth 2012 am ganlyniadau'r broses asesu a phenderfynodd y Pwyllgor **y dylai panel o'r Pwyllgor hwn gyfweld a phenodi aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor. Roedd y panel yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Eric Jones ynghyd â'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.**

1.6. Adroddodd y Panel Cyfweld a Phenodi yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Mai 2012. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Panel wedi penderfynu ei fod yn dymuno penodi dau aelod annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio oherwydd eu profiad a'u sgiliau. Esboniwyd mai'r rheswm pam na wnaed y penodiadau heb gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Archwilio oedd oherwydd mai'r briff cychwynnol a roddwyd i'r Panel oedd penodi un aelod lleyg tra bod y Panel yn argymell penodi dau. O'r herwydd, ystyriwyd y byddai'n briodol ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i argymhelliad y Panel.

1.7. Derbyniodd y Pwyllgor argymhelliad y Panel ac ar ôl cael trafodaeth bellach ar gyfnod gwasanaeth yr aelodau lleyg penderfynwyd:

**Cymeradwyo argymhelliad Panel y Pwyllgor Archwilio bod dau aelod annibynnol yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.**

**Bod tymhorau aelodaeth y ddau aelod yn cael eu stagro gan fod un yn gallu cychwyn yn syth a chan fod y llall yn gwneud gwaith ar hyn o bryd gydag Ynys Môn fydd yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref sydd felly yn caniatáu dyddiad cychwyn gwahanol**.

## 2. STATWS Y PWYLLGOR ARCHWILIO – CAIS A WNAED AM GADARNHAD

2.1. Oherwydd nad oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012 yn cynnwys aelod lleyg yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gellid ystyried ei fod wedi ei gynnull yn anghyfreithlon. O'r herwydd, gellid ystyried bod unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor hefyd yn anghyfreithlon.

2.2. Er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio yn cael eu cynnull yn gyfreithlon yn y dyfodol, gofynnir i'r cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor gadarnhau cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012, gan gadarnhau'n benodol yr argymhellion a wnaed gan y Panel cyfweld a phenodi i benodi dau aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. (Mae copi o'r cofnodion yn Atodiad A.)

2.3. Bydd cadarnhad o'r fath yn caniatáu ar gyfer penodi'r aelodau lleyg hyn ac yn caniatáu ystyried eu cymhwyster i fynychu'r cyfarfod arferol nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2012.

2.4. Unwaith y bydd y Pwyllgor Archwilio wedi ei gynnull yn gyfreithlon ar 24 Gorffennaf 2012 gydag aelod lleyg cymwys, bydd y Pwyllgor mewn sefyllfa i ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn gyfreithlon.

**DIRPRWY BRIF WEITHREDWRAIG (INTERIM)**
**MEHEFIN 2012**

DRAFT

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr E G Davies, Jim Evans, W I Hughes, Thomas Jones. |
| **WRTH LAW:** | Dirwy Brifweithredwraig a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) (ar gyfer eitem 3.2 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Keith Evans, C L Everett, G O Jones, Hefin Thomas, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Mri Huw Lloyd Jones a John Roberts (Swyddfa Archwilio Cymru), Lynn Hine, James Quance (PWC), Mr Patrick Green (RSM Tenon). |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i'r rheiny a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a chyflwynodd yr ymddiheuriadau am absenoldeb. Cyfeiriodd at ymddiswyddiad y Cynghorydd J P Williams fel Aelod o'r Cyngor yn ddiweddar. Roedd ef a'i gyd-Aelodau yn gytûn eu bod yn dymuno mynegi eu gwerthfawrogiad o'r cyfraniad a wnaeth y cyn Gynghorydd Williams i waith a thrafodaethau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod ei gyfnod fel aelod ohono.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth Mr John Fidoe a Mr Patrick Green (RSM Tenon) ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 8 ar Raglen y cyfarfod, sef eitem a oedd yn ymwneud â'r Contract Rheoli Archwilio Mewnol ac nid oedd yr un o'r ddau yn bresennol yn ystod y drafodaeth arni.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Mawrth a 18 Mai 2012.

Yn codi o gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Mawrth:-

Cafodd papur yn esbonio'r rhesymau pam fod rhai o'r adroddiadau ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Mawrth wedi eu cyflwyno'n hwyr ei roddi ar y bwrdd er gwybodaeth i'r Aelodau. Nodwyd yn y papur yr eitemau a'r adroddiadau unigol a oedd wedi achosi anawsterau penodol o ran eu darparu'n hwyr a'r rhesymau am hynny ac, yn ogystal, amlinellwyd ynddo'r amgylchiadau ychwanegol a oedd wedi cyfrannu at y broses, sefyllfa a oedd bellach wedi'i chywiro. Rhoes y Swyddog Adran 151 Dros Dro sicrwydd i'r Pwyllgor y cymerwyd camau i sicrhau fod y Gwasanaeth, yn y dyfodol, yn cynllunio ymlaen yn well ac yn ceisio sefydlu disgyblaeth gryfach o ran cael y wybodaeth ar gyfer adroddiadau o'r fath. Nododd yr Aelodau y wybodaeth.

**3 ARCHWILIO ALLANOL**

3.1 Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – Rhaglen Reoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13.

Soniodd Mr Huw Lloyd Jones, Rheolwr SAC ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru, wrth yr Aelodau am drefniadau adrodd newydd y cytunwyd arnynt gyda'r Swyddog Adran 151 Dros Dro sy'n golygu mai'r Pwyllgor Archwilio fyddai'r prif fforwm gyswllt ar gyfer adrodd ar berfformiad a materion archwilio ynghyd â materion archwilio ariannol sydd wedi bod yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i sylw'r Pwyllgor Archwilio ac yna, byddai'n fater i'r Pwyllgor benderfynu a fyddai angen trafod unrhyw fater mewn perthynas ag archwilio perfformiad yn ehangach yn yr Awdurdod. Dywedodd bod y Rhaglen Reoleiddio fel y cafodd ei chyflwyno yn amlinellu'r gwaith sydd i gael ei wneud gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol dan Fesur Llywodraeth

Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol er mwyn penderfynu a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio gyda gofynion Rhan 1 y Mesur ac roedd yr adroddiad yn nodi'r gofynion o ran hynny. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad llawn o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus unwaith bob pedair blynedd, neu'n amlach na hynny os oes pryderon sylweddol yn awgrymu bod angen gwneud hynny. Ni fydd asesiad llawn yn cael ei gynnal eleni yn y Cyngor, yn hytrach, bydd gwaith dilyn-i-fyny yn cael ei wneud mewn perthynas ag argymhellion a chynigion blaenorol ar gyfer gwella ac adroddir yn ffurfiol ar ganlyniad y gwaith hwnnw mewn llythyr i'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Yn y llythyr hwnnw, adroddir hefyd ar ganfyddiadau SAC yn dilyn yr archwiliad o Gynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor. Bydd ail brif ganlyniad y flwyddyn yn dod ar ffurf Llythyr i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd a fydd yn adrodd yn ffurfiol ar ganfyddiadau SAC yn dilyn yr archwiliad o hunanasesiad y Cyngor gan gynnwys sylwadau ar gadernid a dilysrwydd asesiad y Cyngor ei hun. Mae Asesiad Corfforaethol llawn o'r Cyngor wedi ei gynllunio ar gyfer 2013 ynghyd â nifer o awdurdodau eraill yng Nghymru a bydd hyn yn gyfle i'r Awdurdod ddangos faint o gynnydd y mae wedi ei wneud a'r gwelliannau y mae wedi gweithredu arnynt a'i barodrwydd i symud ymlaen yn ôl ei rym a'i ymdrech ei hun.

Yn ogystal, dygodd y Swyddog sylw'r Aelodau ar gynigion yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer astudiaethau gwella eleni fel a nodir yn rhan 13 yr adroddiad ac mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau awdurdodau o drefniadau llywodraethu a pharatoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol gyda'r nod y bydd y gwaith hwn yn arwain yn y pen draw at sefyllfa lle bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghyd ag asesiad yr awdurdodau eu hunain o berfformiad yn darparu hunanarfarniad cynhwysfawr. Yn yr adroddiad hefyd, cyfeirir at waith sy'n benodol i Ynys Môn fel y caiff ei nodi yn Arddangosyn 1 ynghyd â gwaith arall y mae'r Archwilydd yn ei ddefnyddio i roi siâp ar ei waith archwilio perfformiad yn y Cyngor gan gynnwys gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Dynodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill. Y ffi y bwriedir ei chodi am yr archwiliad perfformiad ar gyfer 2012/13 yw £169,972 + TAW sy'n is na ffi'r llynedd a hynny'n rhannol oherwydd ymdrech i gysoni ffioedd ar draws awdurdodau Cymru ac yn rhannol oherwydd y cynnydd a wnaed yn Ynys Môn yn benodol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar rai pwyntiau yn yr adroddiad ynghyd â sicrwydd ynghylch a oedd gan yr Awdurdod adnoddau digonol ar gyfer hunanarfarniad effeithiol. Eglurodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro y gellir hunanasesu mewn sawl modd ac i wahanol raddau a bod y patrwm o adrodd i'r cyfarfodydd perfformiad chwarterol ynghyd ag asesiad y Pwyllgor Archwilio er enghraifft, oll yn cyfrannu at y fframwaith hunanreoleiddiad. Efallai nad oes gan y Cyngor yr adnoddau i gynnal asesiad gwasanaeth llawn o bob gwasanaeth yn y Cyngor ond mae'n ceisio cynnal hunanasesiadau mewn dull wedi'i reoli sy'n adeiladu'r broses honno. Atgoffodd Mr Huw Lloyd Jones yr Aelodau mai proses yn hytrach na digwyddiad yw hunanarfarniad a'i fod yn cymryd i mewn ac yn cyfeirio at ddatblygiadau sydd wedi digwydd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

**3.2 Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor, adroddiad yn nodi atborth o adolygiad SAC o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau. Roedd canfyddiadau manwl yr adroddiad ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dywedodd Mr John Roberts, sy'n Arwain ar Archwilio Perfformiad yn SAC, wrth y Pwyllgor Archwilio y cafodd yr adolygiad ei ysgogi gan uwch swyddogion y Cyngor a oedd yn cydnabod yr angen i asesu'r modd y mae'r gwasanaeth cynnal a chadw yn cael ei ddarparu ac i nodi gwelliannau angenrheidiol. Nod yr adolygiad a gynhaliwyd gan SAC oedd ateb y cwestiwn sylfaenol, sef a fedr y Cyngor ddangos bod yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'n helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol drwy edrych ar yr agweddau a amlinellwyd ym mharagraff 5 yr adroddiad. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd y Cyngor yn gallu dangos a yw ei wasanaeth atgyweirio ymatebol yn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ai peidio a hynny am y rhesymau a nodir ym mharagraff 7 yr adroddiad ac roedd yn cynnig cyfres o gynigion ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nodwyd yn yr adolygiad bod y Swyddogion wedi cydnabod nifer o'r diffygion yn y trefniadau cyfredol a bod newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer 2012.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) bod Swyddogion wedi nodi'r gwasanaeth gwaith trwsio ymatebol fel maes sydd angen sylw a dyna paham y gofynnwyd am adolygiad. Trosglwyddodd y gwasanaeth i reolaeth y Gwasanaethau Tai ym mis Chwefror 2012 ac mae rhaglen foderneiddio lawn ar gyfer y gwasanaeth. Yn ogystal, mae'r Gwasanaethau Tai wedi cymryd i ystyriaeth anghenion y tenantiaid ac mae'n ymwybodol iawn o'r angen i foderneiddio'r gwasanaeth gwaith trwsio.

DRAFT

Mae system TG newydd wedi cael ei sefydlu gyda chyflwyno cyfrifiaduron llaw i'w defnyddio gan weithwyr yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau a fydd yn arwain at wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. Cadarnhaodd y Swyddog bod Cynllun Gweithredu wedi cael ei lunio ac yn cael ei weithredu ac y byddai'n fodlon adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu.

Roedd cytundeb ymysg Aelodau'r Pwyllgor Archwilio bod gwir angen ers peth amser am adolygiad o'r fath a bod yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau yn faes yr oedd angen ei ailasesu mewn modd cynhwysfawr ac roeddynt yn croesawu'r bwriad foderneiddio'r gwasanaeth. Gofynnwyd cwestiynau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) ynghylch a oedd model gwasanaeth newydd wedi cael ei ddatblygu ynghyd â'r amserlen ar gyfer y gwaith gwella gyda golwg ar i'r Swyddog roi atborth i'r Pwyllgor Archwilio ar y cynnydd a wnaed. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) bod y model gwella yn gadarn o ran ei ddyheadau a'i gyfeiriad ar gyfer y gwasanaeth ond bod gweddnewid y gwasanaeth hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth wleidyddol ac argaeledd adnoddau. Dywedodd nad yw'r diffygion a nodwyd yn y gwasanaeth trwsio tai yn unigryw i Fôn a bod rhai siroedd eraill hefyd yn wynebu problemau tebyg sy'n golygu y gall siroedd gefnogi eu cymheiriaid o ran rhoi sylw i broblemau cyffredin. Mae gweithdy gyda'r hen TLlU a swyddogion y Gwasanaethau Tai eisoes wedi cael ei gynnal ac mae gweledigaeth ddrafft ar gyfer dyfodol y gwasanaeth yn esblygu. Ymhellach, cafodd y Cynllun Gweithredu drafft ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 21 Mai 2012.

Roedd yr Aelodau'n cytuno y dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r mater hwn a gofynnwyd am ddiweddariad i'r Pwyllgor yn yr hydref. Cynigiwyd hefyd y dylai adroddiad adolygiad SAC gael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Wrth gloi, pwysleisiodd Mr John Roberts bwysigrwydd rhoi sylw i gynnig cyntaf SAC, h.y. i'r Cyngor sefydlu pwrpas clir ar gyfer ei wasanaeth trwsio tai yn seiliedig ar yr hyn y mae'n dymuno ei ddarparu ar gyfer ei denantiaid a'i gyfraniad o ran cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor er mwyn darparu sylfaen y gall datblygiadau a gwelliannau esblygu ohoni.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi adroddiad adolygiad SAC ar yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau.**
- **Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio yn yr hydref ar y cynnydd a wnaed o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd gan SAC a'i gynigion ar gyfer gwella.**
- **Cyfeirio adolygiad SAC i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

### 3.3 Adroddiad Cynnydd ar waith SAC

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad yn cynnwys diweddariad mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran gwaith archwilio ariannol yn erbyn y cerrig milltir a bennwyd yn yr Amlinelliad o Archwiliad Ariannol 2011/12 a gwaith ardystio grantiau.

Dygodd Ms Lynn Hine, PWC, sylw'r Aelodau at y pwyntiau allweddol gan gyfeirio'n benodol at y gwaith a wnaed ar Ddatganiad Cyfrifon 2011/12 a'r broses o gau'r cyfrifon. Dywedodd fod PWC yn parhau i fod yn falch o'r cynnydd sy'n cael ei wneud a rhoes amlinelliad o fewnbwn yr Archwiliwr Allanol i'r broses o gynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon. Yn yr adroddiad hefyd, cyfeiriwyd at statws gwaith ardystio grantiau 2009/10 a 2010/11 ynghyd â'r gwaith archwilio sy'n mynd rhagddo. Nodwyd y wybodaeth gan yr Aelodau.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad**.

### 3.4 Ymchwiliad i Grant Atgyweirio

Cafodd crynodeb o gasgliadau'r Archwiliwr Allanol yn dilyn ei ymchwiliad i gynlluniau grant yn 88 Stryd y Farchnad, Caergybi ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Nododd yr Aelodau'r wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno.

## 4 DATGANIAD CYFRIFON 2011/12

Rhoddwyd i'r Pwyllgor ddiweddariad llafar ar y cynnydd cyfredol mewn perthynas â pharatoi Datganiad Cyfrifon 2011/12 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cysylltiedig.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) fod llawer o adnoddau wedi cael eu sianelu i broses paratoi a chynhyrchu'r cyfrifon ers Tachwedd 2012 a bod yr adnoddau hynny wedi cael eu cynnal wedyn. Er na fu modd cwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer cynhyrchu cyfrifon 2010/11, credir bod yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach eleni oherwydd bod yr adnoddau angenrheidiol eisoes yn eu lle a bod y prosesau a gyflwynwyd i hwyluso cau'r cyfrifon wedi cael cyfle i ymsefydlu'n gadarn. Mae'r Archwilwyr Allanol wedi gwneud eu harchwiliad cychwynnol yn llawer cynharach yn y broses ac wedi gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae gwaith felly'n mynd rhagddo i gau cyfrifon 2011/12 i bwrpas cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon ac ar gyfer cyflwyno i'r Cyngor wybodaeth ar y canlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12. Er y byddir yn canolbwyntio ymdrechion ar y tasgau hynny, bydd y Gwasanaeth Cyllid hefyd yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar sut y mae Cyllideb 2012/13 yn siapio, y risgiau cysylltiedig a'r cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r rheiny. Fodd bynnag, paratoi cyfrifon 2011/12 sy'n cael y flaenoriaeth ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol ac mae rhai elfennau o'r cyfrifon eisoes wedi'u cau gan gynnwys asedau cyfalaf a sefydlog. Cyfeiriodd y Swyddog at y dyfarniadau proffesiynol y mae'n rhaid eu gwneud mewn perthynas â rhai elfennau o'r cyfrifon ac at y polisïau cyfrifo sydd wedi cael eu diwygio. Dywedodd ei bod wedi nodi o hunanasesiad y Pwyllgor fod yr Aelodau wedi dweud yr hoffent weld dogfennau megis y polisïau cyfrifo cyn iddynt gymeradwyo'r cyfrifon drafft. Dywedodd y byddai'r rhain, gyda chaniatâd y Cadeirydd, yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon drafft.

O ran y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2011/12, eglurodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro, bod cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Corfforaethol bellach yn rheidrwydd statudol - gwirfoddol ydoedd y llynedd. Er bod y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, mae yn ei hanfod, yn adlewyrchiad o sut y mae'r Awdurdod yn asesu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yn y Cyngor ac, o'r herwydd, mae'n ddogfen allweddol. Er budd tryloywder, roedd y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2010/11 yn gynhwysfawr o ran ei gynnwys ac yn seiliedig ar 10 blaenoriaeth y Comisiynwyr ynghyd â'r 6 egwyddor llywodraethu. Mae gwaith ar y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2011/12 eisoes wedi cychwyn - mae fersiwn ddrafft o'r Datganiad wedi cael ei gyflwyno i'r GAU er mwyn cael ei farn. Y cynnig i'r GAU yw bod Datganiad 2011/12 yn parhau i fod yn gynhwysol yr un modd â Datganiad 2011/12, yn amodol ar drafodaeth gyda'r archwilwyr. Er y bwriedir cyflwyno'r Datganiad drafft yn ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, y bwriad gyda chaniatâd y Cadeirydd yw cylchredeg y ddogfen ddrafft cyn cylchredeg y papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau arni.

Mewn perthynas â'r rownd hon o Ddatganiadau Llywodraethu Corfforaethol, dywedodd Mr John Roberts, SAC, mai'r amcan yw symud fwyfwy at sefyllfa lle bydd y Datganiad yn cynnwys elfen o farn, h.y. yn ogystal â nodi prosesau, gweithdrefnau a phrotocolau'r Awdurdod, bydd yn adlewyrchu hefyd pa mor effeithiol yw'r Awdurdod yn ei barn nhw o ran cyflawni'r elfennau unigol sydd, gyda'i gilydd, wedi eu dylunio i sicrhau dulliau llywodraethu da.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**5 ARCHWILIO MEWNOL**

5.1 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12 ei gyflwyno i sylw'r Pwyllgor.

Dygodd y Rheolwr Archwilio Mewnol sylw'r Aelodau at yr agweddau allweddol o'r Adroddiad Blynyddol fel a ganlyn -

- Yr alldro cyffredinol yw 81% o ddyddiau y codir tâl amdanynt yn cael eu defnyddio yn erbyn targed a gynlluniwyd o 100%. Y prif reswm am y diffyg oedd y swydd wag yn yr Adain Archwilio Mewnol sydd bellach wedi'i llenwi.
- Roedd yr allbwn a gynhyrchwyd yn ystod 2011/12 yn fwy nag yn 2010/11 gyda 61 o adroddiadau archwilio mewnol ffurfiol yn cael eu rhyddhau o'i gymharu â 52 yn y flwyddyn flaenorol. Oherwydd y rhesymau a ddogfennwyd, ni ddechreuwyd ar 16 o adolygiadau yng Nghynllun Gweithredol 2011/12, cafodd pob un o'r adolygiadau ariannol allweddol yn y cynllun eu cwblhau i'r cyfnod adroddiad terfynol erbyn 29 Chwefror 2012. At hyn, fe wnaed 15 o adolygiadau ychwanegol heb eu cynllunio gydag adroddiadau terfynol yn cael eu rhyddhau yn 2011/12. Fe wnaed y rhain oherwydd risg ac/neu i bwrpas cydymffurfio neu o ganlyniad i waith ymchwilio.
- Mae canran yr argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed ar 65%. Bydd diweddariad ynglŷn â gwella'r ystadegyn hwn yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
- Mae Adran 5.6 yr Adroddiad Blynyddol yn nodi'r meysydd lle mae Archwilio Mewnol yn ymwybodol o wendidau sylweddol o ran rheolaeth fyddai'n rhwystro i'r Cyngor ddibynnu'n rhesymol ar y system reoli fewnol o ran y system hynny a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn ymwneud â Pharhad Busnes, Rheoli Risg a Llywodraethu. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ymhelaethu ar natur y gwendidau mewn rheolaeth a nodwyd a statws a chynnydd y camau adferol a gymerwyd.
- Adroddwyd ar dri adroddiad sicrwydd "Coch" i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y cyfnod yn ymwneud â Rheoli Asbestos, Trefniadau Rheoli Fflyd a Diogelu - Recriwtio. Mae'r rhain a'r meysydd eraill lle nodwyd bod gwendidau yn y system reoli fewnol wedi cael effaith andwyol ar y farn ar y fframwaith reoli fewnol a nodir yn y Datganiad o Reolaeth Fewnol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw faterion yn codi sy'n cael eu hystyried i fod yn andwyol i fusnes yr Awdurdod.

  Nododd y Swyddog Adran 151 Dros Dro y bydd yr adolygiadau Sicrwydd Coch yn cael eu hadolygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ac y bydd angen siecio eu statws a'u diweddaru cyn cymeradwyo'r Datganiad er mwyn sefydlu a ydynt yn parhau i fod yn "goch" ai peidio o safbwynt y lefel o sicrwydd.

  Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a chawsant gyfle i holi cwestiynau i'r swyddogion ar unrhyw agweddau ohono.

  **Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2011/12 a nodi ei gynnwys.**

5.2 Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor a'i gymeradwyaeth, y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol ar gyfer 2012-15 a Chynllun Gweithredol 2012-13.

Atgoffodd y Rheolwr Archwilio Mewnol yr Aelodau bod y Cynllun Strategol yn ddogfen fyw ac y bydd angen ei hadolygu a'i diweddaru'n gyson wrth i systemau newydd gael eu datblygu, bod newidiadau i'r systemau cyfredol yn digwydd, newidiadau deddfwriaethol, amcanion yn newid a risgiau newydd yn cael eu nodi. Mae'r agwedd archwilio y mae'r Cynllun Strategol yn sefydledig arni, yn un sy'n seiliedig ar risg ac roedd y broses asesu anghenion archwilio i'w gweld yn Adran 2 yr adroddiad. Yn yr adran hon hefyd, roedd amlinelliad o'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol. Un peth gwerth ei nodi yw'r ffaith mai dyma'r flwyddyn gyntaf y bu Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gael i nodi meysydd sydd yn peri'r risg uchaf i'r Cyngor ac felly y meysydd lle mae mwyaf o angen am sicrwydd bod y Cyngor yn rheoli'r risgiau hyn yn ddigonol. Am bob blwyddyn o'r Cynllun Strategol Archwilio Mewnol, mae Cynllun Gweithredol blynyddol yn cael ei gynhyrchu i ddarparu rhaglen waith ar gyfer yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn. Roedd Adran 3 yr adroddiad yn cyfeirio at y broses sy'n rhoi gwybodaeth ar gyfer datblygu'r Cynllun Gweithredol. Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at Atodiad A oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredol 2012/13, ac Atodiad C ar gyfer y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol am 2012/15 ac at Atodiad B am ddadansoddiad o faterion adnoddau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cynlluniau ac roeddent yn fodlon bod y Cynllun Archwilio Mewnol Strategol am 2012 i 2015 yn adlewyrchu'r meysydd y dylid rhoi sylw iddynt yn y cyfnod; bod y Cynllun Gweithredol manwl am 2012/13 yn adlewyrchu'r meysydd y dylid rhoi sylw iddynt fel blaenoriaeth yn y flwyddyn ariannol i ddod ac roeddent yn derbyn bod lefel yr adnoddau archwilio fel y cawsant eu nodi yn ddigonol o gymryd i ystyriaeth y lefel o sicrwydd oedd ei angen. Un mater a ddaeth yn amlwg o drafodaeth yr Aelodau ar y cynlluniau oedd y farn y dylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, o ystyried bod yr agwedd archwilio yn seiliedig ar risg, fod yn eitem sefydlog ar raglen y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn caniatáu i flaenoriaethau gael eu nodi. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod llawer o'r gwaith

DRAFT

wedi'i wneud ynglŷn â'r Gofrestr Risg ddrafft tuag at ddiwedd 2011 a dechrau 2012 ac fe gynhaliwyd nifer o weithdai. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, mae risgiau cychwynnol yr Awdurdod yn awr wedi cael eu sefydlu ac maent yn cael eu defnyddio yng ngwaith rheoli corfforaethol a gwasanaeth. Er y rhagwelir na fydd yr eitemau sydd wedi cael eu hadnabod fel risgiau ar y gofrestr yn arbennig o gyfnewidiol chwarter fesul chwarter, fe fydd yna ddatblygiadau o ran y risgiau unigol ac mae gwaith pellach yn parhau i fod angen ei wneud ar y rhan yma o'r system. Y cam nesaf fydd nodi'r camau lliniaru yn erbyn y risgiau a datblygu cynlluniau penodol wrth i'r GAU ddod yn fwy sefydlog. Byddai'r camau hynny wedyn yn cau'r cylch fel y gallai'r gofrestr gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol.

**Penderfynwyd derbyn y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol 2012-2015 a hefyd y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2012/13 fel y'u cyflwynwyd.**

5.3 Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor ac i dderbyn ei gymeradwyaeth, adroddiad yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad effeithiolrwydd 2012 a'r Cynlluniau Gweithredu oedd gyda hwy fel rhan o'r broses barhaol o wella'r Pwyllgor Archwilio.

Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio Mewnol at brif elfennau'r adroddiad fel a ganlyn –

- Canlyniad y gweithdy a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2012 i Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion perthnasol fel oedd i'w weld yn y siartiau pry cop yn Atodiad A. Roedd y siartiau'n dangos bod canlyniadau'r asesiadau wedi symud at allan ers yr asesiadau wnaed yn 2011 gyda hynny'n symudiad i gyfeiriad gwelliant. Ym marn hunan-asesiedig y rhai a gymerodd ran, roedd cynnydd felly, wedi cael ei wneud i'r cyfeiriad iawn.
- Roedd y tabl yn Atodiad B yn rhoi canlyniad y gweithdy yn Ebrill 2012 yn erbyn y rhestr wirio hunanasesu gyda'r canlyniadau unwaith yn rhagor yn cael eu cymharu gyda rhai 2011.
- Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella yn 2012/13 a oedd ynghlwm yn Atodiad C ac a oedd yn codi o waith y Pwyllgor yng Ngweithdy Ebrill 2012.
- Trefniadau Atal Twyll a rôl y Pwyllgor Archwilio o ran sicrhau bod camau i wrthsefyll twyll a llygredd yn cael eu gweithredu. Fel rhan o weithdy Ebrill 2012, fe dderbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ar y cefndir i dwyll a llygredd yn gyffredinol a chrynodeb o swyddogaethau Timau Archwilio Mewnol a Thwyll Budd-dal mewn perthynas ag atal twyll yn y Cyngor a'r tu allan iddo. Bydd yr adolygiad o drefniadau atal twyll y Cyngor yn cael ei gynnal yn flynyddol ochr yn ochr â'r Adolygiad Blynyddol o effeithlonrwydd y Pwyllgor Archwilio a bydd yn cynnwys rhestr wirio hunanasesiad o drefniadau atal twyll fel oedd i'w gweld yn Atodiad c. Yn codi o'r rhestr wirio hunanasesu, roedd Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella'r Trefniadau Hunanasesu Atal Twyll am 2012/13 wedi cael ei lunio ac roedd i'w weld yn Atodiad F yr adroddiad.
- Camau gwella pellach yn cynnwys y rhai a nodwyd mewn cysylltiad â hyfforddiant anwytho, a dadansoddiad o anghenion hyfforddiant unigol i Aelodau.

  Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a'r atodiadau oedd ynghlwm gan gymeradwyo'r dogfennau fel y'u cyflwynwyd.

  **Penderfynwyd –**

  - **Mabwysiadu canlyniad yr hunanasesiadau o effeithiolrwydd y Pwyllgor a threfniadau atal twyll y Cyngor yn cynnwys y Cynlluniau Gweithredu o ran Gwella oedd i'w gweld yn Atodiadau C ac F yr adroddiad.**
  - **Bod Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2012/13 yn cynnwys hunanasesiad diwygiedig o effeithiolrwydd y Pwyllgor ac ar drefniadau atal twyll y Cyngor.**

**6 PENODI AELOD ANNIBYNNOL**

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Pwyllgor am y broses yr oedd y Pwyllgor wedi'i dilyn i benodi Aelod Annibynnol/Lleyg i'r Pwyllgor Archwilio cyn i'r Mesur Llywodraeth Leol ddod i rym ym Mai 2012. Fe wnaed hyn am nifer o resymau yn cynnwys y gofyn i wneud hynny yn y Mesur Llywodraeth Leol, sef bod aelodaeth y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf un aelod lleyg; y byddai cynnwys aelod annibynnol yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at lywodraethiant y Pwyllgor fel Pwyllgor anwleidyddol, ac y byddai aelod annibynnol yn dod â sgiliau ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio sydd yn faes gwybodaeth arbenigol. Dywedodd y Swyddog bod y broses hysbysebu gychwynnol yn hwyr yn 2011 wedi cael rhywfaint o ymateb, ond ail-hysbysebwyd y swydd wedi hynny ar ddechrau 2012 ac

roedd yr ymateb yn sylweddol o ran ymholiadau a cheisiadau.  Wedi i swyddogion arfarnu’r ceisiadau a dderbyniwyd, fe ofynnodd y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym Mawrth 2012 i Banel o’r Pwyllgor gynnal y broses cyfweld a dewis.  Daeth y panel i benderfyniad, sef ei fod yn dymuno penodi dau aelod annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a hynny oherwydd profiad a sgiliau.

Roedd y Cynghorydd Thomas Jones fel aelod o’r Panel am ategu'r hyn a ddywedodd y Swyddog gan ddweud bod y Panel yn unfrydol yn ei argymhelliad i’r Pwyllgor Archwilio y dylai dau aelod annibynnol gael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor yn hytrach nag un aelod annibynnol, a dyna oedd y rheswm bod y mater yn cael ei ddwyn i sylw’r Pwyllgor.  Cytunodd Aelodau’r Pwyllgor Archwilio i dderbyn argymhellion y Panel.  Cafwyd trafodaeth wedyn ynglŷn â thymor gwasanaeth yr aelodau annibynnol ac ynglŷn â’r ffordd orau o sicrhau parhad fel na fydd y Pwyllgor yn colli gwasanaeth y ddau aelod annibynnol ar yr un pryd.  Trafodwyd proses o stagro telerau penodi a chafwyd cynnig y dylai un aelod annibynnol wasanaethu am gyfnod o 3 blynedd a llall am gyfnod o ddwy flynedd.  Gyda hyn fe gynigiodd y Cadeirydd **ac fe benderfynwyd gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar y sail y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu** er mwyn caniatáu i’r Swyddog Adran 151 Dros Dro egluro sut y byddai amgylchiadau unigol yn hwyluso trefniant stagro.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo argymhelliad Panel y Pwyllgor Archwilio bod dau Aelod Annibynnol yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.**
- **Bod tymhorau aelodaeth y ddau aelod yn cael eu stagro gan fod un yn gallu cychwyn yn syth a chan fod y llall yn gwneud gwaith ar hyn o bryd gydag Ynys Môn fydd yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref sydd felly yn caniatau dyddiad cychwyn gwahanol.**

## 7  CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

## 8  CONTRACT RHEOLI ARCHWILIO MEWNOL

Aeth y Mri John Fidoe a Patrick Green allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Pwyllgor bod y contract cyfredol gyda RSM Tenon i ddarparu gwasanaeth rheoli archwilio mewnol wedi bod mewn grym am nifer o flynyddoedd.  Cafodd y trefniant ei adolygu ar y cychwyn yn flynyddol ac wedi hynny yn chwarterol nes y ceid eglurhad o statws y rhaglen cydweithredu ar draws Gogledd Cymru.  Er i swm sylweddol o waith gael ei wneud mewn perthynas â chydweithredu, nid yw’r rhaglen wedi esblygu mor gyflym â’r disgwyl.  Penderfynwyd, felly, ddechrau proses dendro ar gyfer darparu gwasanaeth rheoli archwilio mewnol, ac fe fynegwyd diddordeb sylweddol o ganlyniad.  Yn dilyn creu rhestr fer a phroses werthuso gadarn wedi hynny, gellir dweud bod RSM Tenon wedi bodloni'r gofynion tendro o ran parhau gyda'r contract.  Bydd y contract yn parhau 2 flynedd gyda chyfle i ymestyn y cyfnod fel bo’n briodol.

Nododd yr Aelodau y wybodaeth.

**Y Cynghorydd Eric Roberts**
**Is-Gadeirydd**

DRAFFT